

**Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd
Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona (Cyf achos: EN010137)**

**Agenda ar gyfer Gwrandawriad Caffael Gorfodol 2 (CAH2) yn ymdrin â materion
yn ymwneud â Chaffaeliad Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP)**

Gwrandawriad	Dyddiad ac Amser	Lleoliad
Gwrandawriad Caffael Gorfodol 2 (CAH2)	Dydd Mercher 11 Rhagfyr 2024 Gwrandawriad yn dechrau am 1:30yp Cynhadledd Trefniadau Rhithwir o 1:00yp	Trwy ddulliau rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams

Agenda

1. Croeso, cyflwyniadau, trefniadau ar gyfer y gwrandawriad

2. Pwrpas y Gwrandawriad Caffael Gorfodol

Bydd yr Awdurdod Archwilio (ExA) yn egluro pwrpas y gwrandawriad.

3. Materion safle-benodol i'r Ymgeisydd

Bydd yr ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y trafodaethau gyda'r Partion yr Effeithir arnynt (APs) a'r amserlen ar gyfer eu casgliad.

Gall yr ExA ofyn cwestiynau i'r Ymgeisydd am drafodaethau a materion sy'n codi o gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar.

4. Cynrychioliadau safle-benodol gan AP

Bydd yr ExA yn gofyn i APau nodi'n gryno unrhyw bryderon sydd heb eu datrys mewn perthynas â CA/TP ar gyfer y tir y mae ganddynt fuddiant ynddo nad yw'r Ymgeisydd wedi mynd i'r afael ag ef. Gofynnir iddynt osgoi ailadrodd tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig sydd eisoes wedi'i chyflwyno i'r Archwiliad a chanolbwyntio ar ddiweddarau eu hachos a/neu fynd i'r afael â chyflwyniadau Dyddiad Cau 5 yr Ymgeisydd.

Gall yr ExA ofyn cwestiynau i APs am faterion sy'n codi o gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar.

Heb ragfarn ynghylch a yw'r ExA yn derbyn Cais yr Ymgeisydd am Newid [CR1-001 i CR1-023 yn gynwysedig], bydd hefyd yn clywed unrhyw gyflwyniadau llafar gan dirfeddianwyr yr effeithir arnynt gan y pwerau TP ychwanegol y mae'r Ymgeisydd yn eu ceisio. Bydd materion amgylcheddol sy'n codi o'r newidiadau arfaethedig yn cael eu hystyried yng Ngwrandawriad Mater Penodol 6 (ISH6) a bydd trafodaeth yn CAH2 yn cael ei chyfyngu i'r hawliau ychwanegol a geisir mewn tir.

5. Ymgwymerwyr Statudol a chyrrff perthnasol eraill

Bydd yr ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd grynhoi unrhyw faterion sy'n weddill sy'n codi o sylwadau gan Ymgwymerwyr Statudol (SU).

Bydd unrhyw SU neu gorff perthnasol arall sy'n bresennol ac sy'n dymuno siarad mewn perthynas â gwrthwynebiad neu fater a godwyd sy'n berthnasol i effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar ei ymgwymeriad, cyfarpar neu dir yn cael ei wahodd i gyflwyno cyflwyniadau llafar i'r ExA fel diweddariad i unrhyw gyflwyniadau ysgrifenedig a/neu lafar blaenorol.

Gall yr Awdurdod Archwilio ofyn cwestiynau i SU neu gorff perthnasol arall, a'r Ymgeisydd, am faterion sy'n codi o gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar.

Mae'r ExA am archwilio a yw'r Datblygiad Arfaethedig yn bodloni'r profion cyfreithiol a nodir yn bennaf yn Adrannau 127 a/neu 138 o Ddeddf Cynllunio 2008. Bydd Darpariaethau Amddiffynnol ac unrhyw gytundebau masnachol/ochr yn cael eu hystyried yn ISH6.

6. Tir y Goron

Bydd yr ExA yn gofyn i'r Ymgeisydd (ac unrhyw awdurdodau'r Goron sy'n bresennol) roi'r wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n ymwneud â thir y Goron ac adran 135 o Ddeddf Cynllunio 2008 a chynghori ar y goblygiadau i'r Datblygiad Arfaethedig pe na bai caniatâd awdurdod perthnasol y Goron yn cael ei roi erbyn diwedd yr Archwiliad.

7. Ariannu

Nid oes gan yr ExA unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r Datganiad Ariannu a thystiolaeth ysgrifenedig a llafar dilynol ar y mater. Fodd bynnag, efallai y bydd yr Ymgeisydd am roi gwybod am unrhyw ddiweddariadau neu gall partïon eraill godi unrhyw faterion neu ymholiadau cysylltiedig ychwanegol nad ydynt eisoes wedi'u cyflwyno i'r Archwiliad mewn cyflwyniadau ysgrifenedig a/neu lafar blaenorol.

8. Adolygu materion a chamau gweithredu sy'n codi

9. Unrhyw fusnes arall

10. Cau'r gwrandawriad

Pwrpas CAH2

Mae Gwrandawriad Caffael Gorfodol (CAH) yn cael ei gynnal i:

- sicrhau archwiliad digonol o'r darpariaethau yn yr iteriad diweddaraf o'r dDCO sy'n ceisio awdurdodi'r CA tir a/neu hawliau dros dir;
- asesu a yw'r amodau sy'n ymwneud â'r tir a/neu'r hawliau sy'n ofynnol ar gyfer y Datblygiad Arfaethedig neu sy'n ofynnol i hwyluso neu fod yn atodol i'r datblygiad hwnnw yn cael eu bodloni; a
- asesu a oes achos cymhellol er budd y cyhoedd i'r tir gael ei brynu'n orfodol.

Cyfranogiad

Roedd manylion llawn sut i gymryd rhan yn y gwrandawriad hwn wedi'u cynnwys yn y [llythyr hysbysu a gyhoeddwyd ar 12 Tachwedd 2024](#). Rhaid i chi gofrestru drwy e-bostio blwch post y prosiect erbyn dydd Iau 5 Rhagfyr 2024, os ydych yn bwriadu cymryd rhan yn y gwrandawriad hwn.

Bydd y digwyddiad hefyd yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio, a bydd dolen i wyllo'r ffrwd fyw yn cael ei chyhoeddi ar [dudalen we'r prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol](#) yn nes at ddyddiad y digwyddiad. Felly gall IPs ac aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno arsylwi'r gwrandawriad weld a gwrandawrio ar y gwrandawriad gan ddefnyddio'r llif byw, neu weld a gwrandawrio ar y recordiad, ar ôl iddo ddod i ben.

Bydd y gwrandawriad yn cynnwys archwiliad cyflwyniadau hyd at a chan gynnwys Dyddiad Cau 5 ar amserlen yr Archwiliad. Er y disgwylir sylwadau ysgrifenedig ar ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig Pellach yr ExA erbyn Dyddiad Cau 6 (20 Rhagfyr 2024), gall yr ExA ofyn i bartïon ymateb i gyflwyniadau Dyddiad Cau 5 yn y gwrandawriad.

Mynychwyr

Oni bai bod hysbysiad ysgrifenedig wedi'i gyflwyno i'r Archwiliad bod eu gwrthwynebiadau wedi'u tynnu'n ôl, byddai'n ddefnyddiol i'r ExA pe gallai'r partïon canlynol fod yn bresennol yn y gwrandawriad hwn:

- **Ymgeisydd**
- **Unrhyw bersonau yr effeithir arnynt** sy'n dymuno trafod materion CA/TP
- **Ystad y Goron**
- **Llywodraeth Cymru**
- **Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited**
- **National Grid Electricity Transmission PLC**
- **Addleshaw Goddard PLC ar rhan Network Rail Infrastructure Limited**
- **SP Manweb PLC**
- **Wales and West Utilities**

- **Gweinidogion Cymru fel Awdurdod Priffyrdd Strategol**

Dogfennaeth berthnasol

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r Personau yr effeithir arnynt, Ymgwymerwyr Statudol a, lle bo'n berthnasol, eu cynrychiolwyr priodol wedi ymgyfarwyddo â'r hyn y mae'r Ymgeisydd wedi'i ddweud eisoes am eu pryderon, yn bennaf ond nid yn gyfan gwbl yn y dogfennau a ganlyn sydd ar gael yn Llyfrgell yr Archwiliad ar y [tudalen we prosiect y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol](#):

- Ymateb yr Ymgeisydd i Sylwadau Perthnasol [PDA-008];
- Ymateb yr Ymgeisydd i Gyflwyniadau Ysgrifenedig a wnaed ar y Dyddiad Cau Gweithdrefnol [REP1-011];
- Ymateb yr Ymgeisydd i Gyflwyniadau Ysgrifenedig [REP2-078];
- Ymateb yr Ymgeisydd i Gwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf yr ExA (ExQ1) [REP3-062];
- Ymateb yr Ymgeisydd i Gwestiynau Ysgrifenedig Pellach yr ExA (ExQ2) (a gyflwynwyd yn D5); a,
- Traciwr Hawliau Tir wedi'i ddiweddarau gan yr ymgeisydd (wedi'i gyflwyno erbyn Dyddiad Cau 5)
- Ceisiadau Ymgeisydd o dan a127 ac a138 o Ddeddf Cynllunio 2008 (cyflwynwyd erbyn Dyddiad Cau 5)

Yn ystod y gwrandawriad, gellir cyfeirio at nifer o ddogfennau allweddol y gall cyfranogwyr ddymuno cyfeirio atynt. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- y Llyfr Cyfeirio [REP3-006];
- y Datganiad o Resymau [REP3-004];
- y Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft [REP4-005];
- y Cynllun Tir (Ar y Tir) [REP1-004];
- y Cynllun Tir y Goron (Ar y Tir) [AS-006];
- y Traciwr Hawliau Tir [REP4-091]; a
- y Datganiad Ariannu [APP-025].

Efallai y bydd rhai neu bob un o'r uchod yn cael eu diweddarau erbyn Dyddiad Cau 5, ac os felly, bydd yr ExA yn tynnu sylw'r cyfranogwyr at hyn yn ystod y gwrandawriad.

Gweithdrefn yn y CAH

Mae canllawiau o dan PA2008 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 yn darparu mai'r ExA sydd i archwilio, profi ac asesu'r dystiolaeth drwy gwestiynau uniongyrchol i bersonau sy'n cyflwyno sylwadau llafar mewn gwrandawriadau.

Gall cyfranogwyr gael cynrychiolaeth gyfreithiol os dymunant, ond bydd yr ExA yn cynnal y gwrandawriad yn y fath fodd fel na fydd angen cynrychiolaeth gyfreithiol. Bydd yr ExA yn arwain y gwaith o gwestiynu partïon sy'n gwneud sylwadau llafar ac yn archwilio, profi ac asesu'r dystiolaeth. Fel arfer nid oes unrhyw bartïon eraill yn croesholi tystion, er bod gan yr ExA'r pŵer i ganiatáu hyn dan rai amgylchiadau.

Daw'r gwrandawriad i ben pan fydd yr ExA o'r farn bod yr holl faterion wedi'u cynnwys a bod yr holl gyfranogwyr wedi cael cyfle i wneud eu sylwadau. Fel canllaw, nod yr ExA yw cau'r gwrandawriad erbyn tua 5yp. Os oes materion ychwanegol i'w trin, efallai y bydd angen gohirio rhai materion i gwestiynau ysgrifenedig.

Dylid cynnwys crynodeb o'r dystiolaeth a gyflwynir ar lafar yn CAH2 mewn cyflwyniadau ar ôl gwrandawriad i'w cyflwyno erbyn **Dyddiad Cau 6** yn Amserlen yr Archwiliad (**Dydd Gwener 20 Rhagfyr 2024**).

Byddai'r ExA yn argymhell unrhyw bartïon sy'n newydd i'r broses ac sy'n dymuno dysgu mwy am y cefndir a'r gweithdrefnau mewn gwrandawriadau i ddarllen [Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol: tudalennau cyngor](#).

Cysylltwch â'r Tîm Achos os oes gennych unrhyw gwestiynau am y trefniadau ar gyfer y gwrandawriad neu sut i gymryd rhan:

E-bost: MonaOffshoreWindProject@planninginspectorate.gov.uk

Ffon: 0303 444 5000.